



Nodyn cyfarfod

Enw'r prosiect	Fferm Wynt Alltraeth Morgan a Mona
Cyfeirnod ffeil	EN010124/EN010134
Statws	Terfynol
Awdur	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Dyddiad	4 Hydref 2021
Cyfarfod gyda	BP/EnBW
Lleoliad	Cyfarfod Microsoft Teams
Amcanion y cyfarfod	Cyfarfod sefydlu
Cylchrediad	Pawb a oedd yn bresennol

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai cyhoeddi'r nodyn cyfarfod gael ei oedi hyd at chwe mis, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno (os bydd Ymgeisydd yn gofyn amdano am resymau masnachol).

Manylion y datblygiad arfaethedig

Arwerthwyd y ddau safle ar brydlesau 60 mlynedd yn y "Rownd 4" gan Ystad y Goron ac maen nhw wedi'u lleoli ym Môr Iwerddon, 30 km o arfordir gogledd Cymru. Bydd y prosiectau, a fydd â chapasiti o 1.5 GW yr un, yn cael eu darparu gan bartneriaeth rhwng BP ac EnBW sy'n bwriadu darparu Morgan a Mona erbyn trydydd chwarter 2028 a 2029, yn y drefn honno. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd RPS yn rhan o'r tîm sy'n gyfrifol am gynnal yr Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (EIA) a pharatoi'r Datganiad Amgylcheddol (ES).

Bwriadwyd gwneud cais am Gontract Gwahaniaeth (CfD) yn 2025, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Holodd yr Arolygiaeth a oedd unrhyw ystyriaethau ynglŷn â'r angen am achos rhanddirymiad. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddai hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

Cysylltiad â'r grid ar y tir

Dyweddod yr Ymgeisydd wrth yr Arolygiaeth mai'r achos sylfaenol yw cysylltiad ar wahân â'r grid ar gyfer pob Prosiect. Fodd bynnag, ni allai gadarnhau llwybrau ceblau gan nad yw Pwyntiau Rhyng-gysylltiad (PoI) wedi cael eu cadarnhau eto gan y Grid Cenedlaethol (NG). Er hynny, mae'r Ymgeisydd wedi gwneud gwaith amlygu opsiynau ar gyfer pob PoI posibl sy'n cael ei ystyried. Mae hyn wedi cynnwys cynnal arolygon adar sy'n gaeafu. Cadarnhaodd hefyd y bydd Proses Cynllun Tystiolaeth (EPP) yn cael ei defnyddio drwy gydol y broses ymgeisio.

Dyweddod yr Ymgeisydd fod y Prosiect yn aros am argymhellion yr Adolygiad Rhwydwaith Trawsyrru ar y Môr (OTNR), ond ei fod yn asesu opsiynau posibl i gydweithredu â datblygiadau eraill i gysylltu â'r grid trydan, ac y gallai'r cysylltiadau hyn fod yng Nghymru neu Loegr. Un o ganlyniadau eraill yr OTNR yw'r posibilrwydd o gysylltiad ar y môr.

Cynllun cydsynio

Rhoddod yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth bod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) Lefel Cynllun wedi cael ei ddechrau gan Ystad y Goron. Bydd gan bob prosiect ei gais ei hun am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO), y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn ystod pedwerydd chwarter 2023 ar gyfer Mona a chwarter cyntaf 2024 ar gyfer Morgan. Dywedod yr Ymgeisydd y bydd Trwydded Forol (ML) yn cael ei chyflwyno ar gyfer pob prosiect.

EIA, HRA a Thrwydded Forol

Rhoddod yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth ei fod yn bwriadu cyflwyno ei gais Cwmpasu yn ystod chwarter cyntaf 2022, yn ogystal â'r cais Cwmpasu EIA yn rhan o'r DCO a'r ML. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ddefnyddio Nodyn Cyngor Saith er mwyn deall rôl y wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol. Tynnodd yr Arolygiaeth sylw at y ffaith bod y Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Rhoddod yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth bod cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'r cais am ML. Dywedod yr Ymgeisydd ei fod yn deall yr angen i ymgysylltu'n rhagweithiol â CNC ynglŷn ag ML ar wahân, a thrafododd y posibilrwydd o gael Trwydded Forol Dybiedig (DML) ar gyfer cynhyrchu a thrwydded CNC ar gyfer trawsyrru.

Mae'r Ymgeisydd wedi cwblhau arolwg geoffisegol, benthig a geotechnegol bas, ac mae'n bwriadu dechrau lleoli bwiau metoforol yn ystod pedwerydd chwarter 2021.

Ymgynghori statudol

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ymgynghori â chyrrff cynrychioliadol perthnasol Ynys Manaw. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn dechrau trafod â maes awyr Ynys Manaw a sawl rhanddeiliad pysgodfeydd. Dywedod yr Ymgeisydd fod yr ardal wedi'i chyfyngu gan forgludiant hefyd.

Dyweddod yr Ymgeisydd y bydd yn dechrau ymgysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol a'r cymunedau lleol yn ystod chwarter cyntaf 2022. Mae'n bwriadu cael Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned erbyn 2022.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai angen cyfieithiad Cymraeg ar gyfer prosiect Mona gan ei fod yn nyfroedd Cymru yn bennaf. Mae'n debygol y bydd angen hyn ar gyfer y crynodeb o'r adroddiad Cwmpasu, y Crynodeb Annhechnegol o'r ES, gwefannau a chylchlythyrau.

Caffael Gorfodol

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd unrhyw bwerau caffael gorfodol a geisir yn cael eu hegluro yn y cais DCO ar gyfer y ddau brosiect. Ar hyn o bryd, nid yw'n disgwyl ceisio pwerau mynediad at ddibenion arolygu o dan a.53 y Ddeddf.

Ymgynghori yn y dyfodol

Cytunodd yr Ymgeisydd a'r Arolygiaeth y byddem yn cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer y ddau brosiect wrth symud ymlaen, ond ei bod yn amlwg yn gwneud synnwyr i'w cynnal ar yr un pryd ar yr un diwrnod.

Gofynnodd yr Ymgeisydd a yw cyfarfodydd bob tri mis yn briodol. Ymatebodd yr Arolygiaeth drwy ddweud y byddai cynnal cyfarfod cyn cyflwyno'r cais Cwmpasu o gymorth i'r tîm EIA ac wedi hynny ar ôl digwyddiadau carreg filltir allweddol yn ystod y broses cyn-ymgeisio, er enghraifft, ar ôl gweithgarwch ymgynghori.

Unrhyw fater arall

Bydd yr Arolygiaeth yn sefydlu blwch negeseuon e-bost ar gyfer pob prosiect ac yn rhoi cadarnhad i'r Ymgeisydd.



Meeting note

Project name	Morgan and Mona Offshore Wind Farm
File reference	EN010124/EN010134
Status	Final
Author	The Planning Inspectorate
Date	4 October 2021
Meeting with	BP/EnBW
Venue	Microsoft Teams meeting
Meeting objectives	Inception meeting
Circulation	All attendees

Summary of key points discussed and advice given

The Planning Inspectorate (the Inspectorate) advised that a note of the meeting would be taken and published on its website in accordance with section 51 of the Planning Act 2008 (the PA2008). Any advice given under section 51 would not constitute legal advice upon which applicants (or others) could rely.

The Inspectorate explained that the publication of the meeting note could be delayed up to six months, or until a formal scoping request had been submitted (if requested by an Applicant for commercial reasons).

Details of the proposed development

The two sites were auctioned on 60-year leases in the "Round 4" by The Crown Estate and are located in the Irish Sea, 30 km from the north coast of Wales. With a capacity of 1.5 GW each, the projects will be delivered by the partnership of BP and EnBW that aim to deliver Morgan and Mona by Q3 2028 and 2029, respectively. The Applicant confirmed that RPS will be part of the team responsible for undertaking the Environmental Impact Assessment (EIA) and preparing the Environment Statement (ES).

The intention was to bid for a Contract for Difference (CfD) contract in 2025, but this has yet to be confirmed. The Inspectorate enquired on whether there were any considerations to the need for a derogation case. The Applicant commented that this would be kept under review.

Onshore grid connection

The Applicant informed the Inspectorate that the base case is a separate grid connection for each Project. However, it could not confirm cable routes as Points of Interconnection

(PoI) have not yet been confirmed by National Grid (NG). Nevertheless, the Applicant has carried out optioneering work for each possible PoI under consideration. This has included conducting over wintering bird surveys. It also confirmed that an Evidence Plan Process (EPP) will be used through the application process.

The Applicant stated that the Project is awaiting the recommendations of the Offshore Transmission Network Review (OTNR), but was assessing potential options to collaborate with other developments to connect to the electric grid and that these connections might be in Wales or England. One of the other outcomes from the OTNR is the possibility of an offshore connection.

Consenting plan

The Applicant informed the Inspectorate that a Plan Level Habitats Regulations Assessment (HRA) has been commenced by The Crown Estate. Each project will have its own application for a development consent order (DCO), anticipated to be submitted in Q4 2023 for Mona and Q1 2024 for Morgan. The Applicant communicated that a Marine License (ML) will be submitted for each project.

EIA, HRA and Marine Licence

The Applicant informed the Inspectorate that it was aiming to submit its Scoping request in Q1 2022, as well as the EIA Scoping as part of the DCO and ML. The Inspectorate advised the Applicant on using the Advice Note Seven in order to understand the role of the preliminary environmental information. The Inspectorate highlighted that the Habitat Regulations are currently being reviewed.

The Applicant informed the Inspectorate that a meeting has been set up with Natural Resources Wales (NRW) regarding the application for a ML. The Applicant commented that it understood the need to engage proactively with NRW about a separate ML and discussed the potential to have a DML for generation and an NRW licence for transmission.

The Applicant has completed Geophysical, benthic and shallow geotechnical survey and is planning to start Metocean buoy deployment in Q4 2021.

Statutory consultation

The Inspectorate advised the Applicant on consulting the relevant Isle of Man representative bodies. The Applicant confirmed that it is commencing conversations with Isle of Man's airport and several fisheries stakeholders. The Applicant highlighted that the area is also constrained by shipping.

The Applicant communicated that they will start engaging with the relevant local authorities and the local communities in Q1 2022. It plans to obtain a Statement of Community Consultation by 2022.

The Inspectorate advised that a Welsh translation would be needed for the Mona project as it was mainly in Welsh Waters. This was likely to be needed in respect of the summary of Scoping report, Non-Technical Summary of the ES, websites and newsletters.

Compulsory Acquisition

The Applicant confirmed that any compulsory acquisition powers sought will be made clear in the DCO application for both projects. At the current time, it is not anticipated that they will seek access powers for survey purposes under s.53 of the Act.

Future consultation

The Applicant and the Inspectorate agreed that going forward we would have separate meetings for each project but it obviously made sense to have them concurrent on the same day.

The Applicant asked if quarterly meetings are appropriate, to which the Inspectorate responded that one before submitting the Scoping would help the EIA team and thereafter after key milestone events during the pre-application process, for example, after consultation activity.

AOB

The Inspectorate will set up a project mailbox for each project and confirm to the Applicant.

